bore da 6 chwech

# Gweithlen!





## Anifeiliaid fferm

Dyma luniau o anifeiliaid fferm.


Mae pob anifail yn byw mewn lle arbennig. Ac mae pob anifail yn gwneud sŵn arbennig ac yn bwyta bwyd arbennig hefyd.


Tynna linell oddi wrth bob anifail at y sŵn iawn, y cartref iawn a'r bwyd iawn.


buwch


mochyn



ci defaid



hwyaden


ceffyl


twlc



pwll dŵr


cae


stabl


cwt ci

Cwac! | Mŵ! | Myaaah! | Wff! | Soch!


asgwrn


ceirch


pryfed


sbarion


glaswellt/porfa

Beth sy'n anghywir yn y frawddeg yma? Beth ydy'r gair iawn?

Mae buwch yn byw mewn cae ac mae hi'n bwyta hadau.

# Anifeiliaid anwes

Mae gan y plant anifeiliaid anwes. Mae'r anifeiliaid i gyd yn wahanol. **Ond pwy ydy pwy?**


Darllena'r brawddegau ac edrych ar y lluniau. Wedyn rho'r enw cywir o dan bob plentyn.

- Mae gan Jason bysgodyn aur mewn powlen.
- Mae gan Anna dri ci du a gwyn.
- Cath sydd gan Bili. Mae'r gath yn hoffi chwarae pêl.
- Bochdew ydy anifail anwes Dyfan. Mae'r bochdew yn byw mewn cawell.
- Mae gan Delyth dri ci brown.











**Alli di ateb y cwestiynau yma.**

Ble mae bochdew Dyfan yn byw?

Faint o gŵn sydd gan Anna?

Pa liw ydy cŵn Delyth?

Beth mae'r gath yn hoffi gwneud?

Beth ydy anifail anwes Jason?

**Geirfa**

**anifeiliaid fferm** – farm animals
**o bob math** – of all kinds
**pob anifail** – each animal
**lle** – place
**arbennig** – special
**sŵn** – noise
**bwyta** – to eat
**bwyd** - food
**iawn** – right, correct
**cartref** - home
**sbarion** – leftovers
**pryfed** – insects
**ceirch** - oats
**rhywbeth anghywir** – something wrong
**anifeiliaid anwes** – pets
**i gyd** – all
**yn wahanol** – different
**pwy ydy pwy?** – who is who?
**darllena** – read
**edrych** – look
**cywir** – correct
**pysgodyn aur** – goldfish
**ci** – dog
**cath** – cat
**chwarae pêl** – to play ball
**bochdew** – hamster
**cawell** – cage
**ble?** – where?
**faint?** – how many?
**pa liw?** – which colour?
**beth?** – what?